

Mesur Arfaethedig y Llywodraeth ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG

Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 2 Gorffennaf 2007, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mrs Edwina Hart AC MBE
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig

2 Gorffennaf 2007

Cynnwys

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesu'r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Mesur Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) ("y Mesur") yn un sy'n galluogi. Bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu, mewn is-ddeddfwriaeth, fanylion y prosesau i'w dilyn gan gyrff y GIG yng Nghymru pan fyddant yn delio â sefyllfaoedd lle penderfynir, ar ôl ymchwiliad cychwynnol, y gallai esgeuluster fod wedi digwydd ond lle mae gwerth y digollediad yn debygol o fod yn gymharol isel. Bydd hyn yn galluogi cleifion i geisio iawn heb gychwyn achos cyfreithiol mewn llys a byddai'n un rhan o gyfres o drefniadau integredig, a fyddai hefyd yn cynnwys gweithdrefn gwynion y GIG a'r gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiadau. Rhagwelir y caiff y rhain eu rhoi gyda'i gilydd yn becyn holistaidd o ddulliau o iawn, a fydd yn cynnwys ymchwiliadau, ymddiheuriadau, camau unioni ac, mewn rhai achosion, digollediad ariannol i gleifion sy'n cael triniaeth neu wasanaethau fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.

2. Cefndir deddfwriaethol

Y Pŵer Galluogi

2.1 Cafodd y Cynulliad bŵer fframwaith o dan adran 17 o Ddeddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006, yn pennu'r pwerau i wneud rheoliadau yn achos Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG. Wedi hynny, ac yn unol â'r pwerau ym mharagraff 31(2) a (4) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, cafodd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor (Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trosglwyddo Pwerau Fframwaith) 2007) ei wneud. Effaith hynny oedd diddymu'r pŵer fframwaith yn adran 17 a gwneud darpariaeth, drwy newid Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i alluogi'r Cynulliad newydd a gyfansoddwyd gan y Ddeddf honno, i basio Mesur Cynulliad ynghylch Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG. Yn fwy penodol, mewnosodwyd y canlynol fel Mater 9.1. ym maes 9 o Ran I o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'n sail i'r pŵer i wneud Mesur:

“Matter 9.1

Provision for and in connection with the provision of redress without recourse to civil proceedings in circumstances in which, under the law of England and Wales, qualifying liability in tort arises in connection with the provision of services (in Wales or elsewhere) as part of the health service in Wales”.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir polisi

- 3.1 Yn y ddogfen *Creu'r Cysylltiadau*, a lansiwyd yn 2004, disgrifiwyd y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a nodwyd y byddai iawn teg yn un o'r safonau craidd allweddol ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid. Cafodd *Creu'r Cysylltiadau* gefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol ac fe'i hategwyd gan gonsensws i raddau helaeth ar draws y sector cyhoeddus. Felly, mae lle amlwg yn yr agenda strategol honno i gynigion i ddatblygu'r modd y mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ymateb pan fydd pethau'n mynd o chwith.
- 3.2 Mae'r *Cynllun Gwella Ansawdd Gofal Iechyd* (QulP) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2006 hefyd yn nodi bod datblygu iawn effeithiol yn un o'r camau y mae ei angen i ddarparu gwasanaeth iechyd o safon uchel, sy'n dysgu ac yn gwella'n barhaus. Yn y cyd-destun hwn, mae "iawn" yn disgrifio'r driniaeth deg a roddir i unigolyn sy'n dioddef oherwydd y camau a gymerwyd gan unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau iechyd, boed hynny o fewn y GIG neu o dan drefniadau comisiynu'r GIG. Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ar waith brosiect ehangach o'r enw *Gweithio i Wella*, sy'n anelu at ddatblygu dull integredig o drin pethau sy'n mynd o chwith yn y GIG yng Nghymru a dysgu oddi wrthynt. Mae'r Mesur hwn yn un rhan o'r gwaith ehangach hwnnw.
- 3.3 Y Mesur hwn yw'r cyntaf i'w roi gerbron trydydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n rhan o'r datblygiadau "gwnaed yng Nghymru" i wella'r modd yr ymdrinnir â phethau sy'n mynd o chwith yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Cafodd y Cynulliad bŵer fframwaith o dan Ddeddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006 fel y gallai benderfynu drosto'i hun ar ei drefniadau ar gyfer setlo hawliadau is eu gwerth am esgeuluster clinigol. Cynhaliwyd ymgynghoriad yng Nghymru yn 2003 ar sail argymhellion Prif Swyddog Meddygol Lloegr yn ei adroddiad *Making Amends* ar ddiwygio'r modd y caiff hawliadau am esgeuluster clinigol eu trin.
- 3.4 Y prif ffactorau sy'n sbarduno'r polisi ar gyfer y diwygiadau arfaethedig yw:
- tybir bod y system fel y mae hi yn gymhleth ac yn anghyson – er y gall achosion ymddangos yn debyg i'w gilydd, gall eu canlyniadau fod yn wahanol ac maent yn aml yn araf yn cael eu datrys;
 - mae'r system yn gostus o ran ffioedd cyfreithiol yn ogystal ag o ran tynnu staff oddi wrth y gwaith o ofalu am gleifion. Mae hefyd yn cael effaith andwyol ar forâl staff y GIG ac ar hyder y cyhoedd;

- mae cleifion yn anfodlon yn aml am nad ydynt yn cael esboniadau ac ymddiheuriadau pan fydd rhywbeth yn digwydd. Yn aml nid ydynt yn hyderus bod camau wedi'u cymryd i atal yr un peth rhag digwydd eto; ac
- mae'r system yn annog agwedd amddiffynnol a chyfrinachol ymhlith cyrff y GIG, sy'n llesteirio dysgu a gwella yn y gwasanaeth iechyd.

Amcan y ddeddfwriaeth

- 3.5 Bydd y Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w galluogi i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu neu gomisiynwyr gwasanaethau, fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, ystyried setlo hawliadau is eu gwerth am esgeuluster clinigol heb gychwyn achos cyfreithiol, fel rhan o becyn o iawn ar gyfer ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith. Amcan y ddeddfwriaeth yw sicrhau dewis tecach i gleifion, sy'n fwy tryloyw ac yn haws i'w weithredu.
- 3.6 Y bwriad yw creu fframwaith a diwylliant a fydd, os bydd camgymeriadau'n digwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG, yn galluogi cyrff y GIG yng Nghymru i ddysgu'n well o'r camgymeriadau hynny a mynd ati i unioni'r cam ac i rwystro'r cyfryw gamgymeriadau rhag digwydd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, nid y trefniadau presennol - sydd braidd yn dameidiog - yw'r ffordd orau o gyrraedd y nodau hyn.
- 3.7 Mae angen i gleifion sydd wedi dioddef esgeuluster clinigol fedru manteisio ar ddewisiadau amgen. Y dewis presennol, a'r mwyaf cyffredin o ddigon, yw camau cyfreithiol a gall hynny ddigalonni rhai cleifion sydd am gael cyfiawnder, am sawl rheswm. Gallai cleifion, oherwydd y maen prawf sy'n ymwneud â chymhwysedd ariannol, fethu â chael cyllid cyhoeddus drwy gyfrwng cymorth cyfreithiol, ac efallai na fydd ganddynt ddull arall o ariannu hawliad posibl. Mae rhai cleifion hefyd yn teimlo bod ceisio iawn drwy'r system gyfreithiol yn fygythiol neu'n anodd oherwydd y cyfnodau amser sydd ynghlwm wrth hynny a'r straen personol sy'n siŵr o ddilyn.
- 3.8 Nid yw'r trefniadau presennol yn llwyr annog diwylliant o unioni cam ac o ddysgu o gamgymeriadau. Mae'r system gyfreithiol yn un wrthwynebol. Mae posibilrwydd y gallai annog y rhai sy'n destun yr achos i ymddwyn yn amddiffynnol a cholli cyfle i ddysgu o'r camgymeriadau a wnaed. Yn lle hynny, hoffem ddatblygu dull o weithredu sy'n annog dysgu ac sy'n diwallu anghenion y cleifion a'r staff dan sylw yn well, sy'n cynnwys ymchwiliad buan a thrwyadl, esboniadau ac ymddiheuriadau llawn ac addas ac sy'n cynnig digollediad ariannol priodol ar lefel leol.
- 3.9 Bydd y Mesur hwn, a'r is-ddeddfwriaeth a wneir yn unol ag ef, yn rhoi pwyslais penodol ar setlo hawliadau is eu gwerth am esgeuluster clinigol heb fod angen cychwyn achos cyfreithiol. Golyga hyn y bydd fframwaith deddfwriaethol yn ei le am y tro cyntaf a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried y dewis hwn i wneud iawn mewn achosion priodol. Y

nod yw rhoi'r offer i gyrrff y GIG wneud iawn am eu camgymeriadau eu hunain a dysgu oddi wrthynt.

Cymhwysiad tiriogaethol

3.10 Bydd y Mesur yn gymwys o ran Cymru. Fe fydd yn cynnwys y gallu i wneud rheoliadau, a fydd yn effeithiol pan fydd gofal iechyd wedi'i gomisiynu mewn perthynas â chleifion o Gymru gan ddarparwyr o'r tu allan i Gymru.

Crynodeb ac esboniad o bob darpariaeth yn y Mesur

3.11 Mae Nodyn Esboniadol llawn yn Atodiad 1, sy'n disgrifio effaith pob adran o'r Mesur drafft.

4. Ymgynghori

- 4.1 Ni chynhaliwyd proses ymgynghori ffurfiol ynghylch amcanion polisi'r Mesur nac ynghylch y manylion sydd ynddo. Bydd ymgynghori ffurfiol yn digwydd yn 2008, yn amodol ar basio'r Mesur, a bydd manylion y trefniadau newydd, a bennir mewn rheoliadau, yn cael eu cyflwyno'n llawn.
- 4.2 Fodd bynnag, cafwyd ymgynghori ynghylch argymhellion yr adroddiad *Making Amends* yn 2003 a gwelwyd bod cefnogaeth i ddiwygio'r ffordd yr ymdrinnir â hawliadau esgeuluster clinigol. Yn dilyn hynny cynhaliwyd trafodaethau â'r GIG ac â phartneriaid eraill, gan gynnwys eiriolwyr cwynion Cynghorau Iechyd Cymuned wrth i'r Mesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG fynd drwy'r Senedd ac fel rhan o'r prosiect *Gweithio i Wella*. Daeth yn amlwg fod cryn gefnogaeth i'r syniad o roi sylw i'r maes hwn a chryn awydd i ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r manylion.

5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

- 5.1 Yn y Mesur drafft mae pwerau eang i alluogi Gweinidogion Cymru i weithredu a phennu manylion y trefniadau gwneud iawn drwy gyfrwng rheoliadau. Cydnabyddir felly y bydd cryn ddiddordeb ym mwriadau Gweinidogion Cymru ar gyfer gwneud iawn fel y'u cynhwysir yn y rheoliadau hynny.
- 5.2 Ar hyn o bryd mae manylion y polisi o ran Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG yn cael eu datblygu ac mae cyrff y GIG a chyrff perthnasol eraill yn chwarae rhan ymarferol wrth glustnodi'r hyn y mae angen ei newid yn y prosesau presennol a pha drefniadau y mae angen eu rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol. Mae Grŵp Llywio, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth, wedi'i sefydlu i oruchwylio'r gwaith hwn a fydd yn parhau am beth amser cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, yn ystod y broses ac ar ôl hynny. Tybir y gallai'r broses hon fod yn allweddol i lwyddiant unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Oherwydd hyn, mae'r pwerau i wneud rheoliadau a bennir yn y Mesur wedi'u llunio'n eang er mwyn medru talu sylw i ganlyniadau'r gwaith hwn wrth ddrafftio'r rheoliadau. Oherwydd y cyfnodau amser sydd ynghlwm wrth y gwaith, ni chaiff y rheoliadau drafft eu hystyried yr un pryd â'r Mesur drafft.
- 5.3 Serch hynny, mae'n debygol y bydd rheoliadau'r dyfodol yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer:
- y sefydliadau y bydd angen iddynt weithredu'r trefniadau;
 - pwy fydd yn medru manteisio ar y trefniadau;
 - ffurf unrhyw ddigollediad a'r amgylchiadau pan allai gwahanol fathau o ddigollediad gael eu cynnig;
 - terfynau ariannol;
 - pwy fydd yn cefnogi'r cleifion o ran darparu cyngor cyfreithiol ar wahanol gamau o'r broses a hefyd o ran darparu cymorth cyffredinol, drwy gyfrwng cynrychiolaeth (a elwir yn eiriolaeth).
- 5.4 Mae'r Mesur drafft hefyd yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio amryfal Ddeddfau Seneddol ac offerynnau statudol o ganlyniad i newidiadau y mae eu hangen oherwydd y rheoliadau. Mae cwmpas y pwerau hyn wedi'i gyfyngu gan rychwant y pwerau i wneud Mesurau i ddiwygiadau a fydd yn ganlyniad i gyflwyno Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG.
- 5.5 Deëllir nad ar chwarae bach y rhoddir y cyfryw bwerau i wneud diwygiadau canlyniadol, ond bernir y bydd cael y pwerau yn sicrhau hyblygrwydd ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau priodol i ddeddfwriaeth sylfaenol pan fydd y polisi sydd i'w bennu yn y rheoliadau yn cael ei ddatblygu'n llawn ac y cynhelir ymgynghoriad yn ei gylch.

- 5.6 Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru fod yn awyddus i ddefnyddio'r pwerau diwygio hyn i newid Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005 i roi awdurdod i'r Ombwdsmon ymchwilio i gwynion am gamweinyddu sy'n codi wrth weithredu trefniadau Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG. Gallai'r angen godi hefyd i Weinidogion Cymru arfer y pŵer i wneud diwygiadau priodol i adran 182 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, er mwyn sicrhau bod eiriolaeth ar gael i'r rheini sy'n ymofyn am iawn.
- 5.7 Gan gydnabod cwmpas eang y pwerau yn y Mesur drafft, ac er mwyn rhoi cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ymhellach, defnyddir y weithdrefn gadarnhaol y tro cyntaf y gwneir y rheoliadau neu pan fydd y rheoliadau'n diwygio neu'n diddymu unrhyw Ddeddf Seneddol, fel y disgrifir uchod. Golyga hyn y bydd y Cyfarfod Llawn yn craffu ar y gyfres gyntaf o reoliadau ac yn eu trafod. Cyn i'r rheoliadau gael eu rhoi gerbron y Cynulliad, bydd ymgynghoriad ffurfiol ar fanylion y trefniadau newydd a'r modd y bydd y rheoliadau'n eu hategu. Ar ôl hynny, bydd arfer y pwerau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol. Dyma'r drefn a ddilynwyd yn achos gweithdrefnau seneddol y Ddeddf Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG 2006, pan roddwyd pwerau eang tebyg i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gweithredu cynllun gwneud iawn drwy gyfrwng rheoliadau.
- 5.8 Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yr ymofynnir amdanynt yn y Mesur yn ddigon eang i gymhwyso'r trefniadau Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG i ofal sylfaenol. Serch hynny, oherwydd bod y trefniadau indemniad ar gyfer ymarferwyr cyffredinol, deintyddion, optegwyr, a fferyllwyr yn wahanol i'r rhai ar gyfer clinigwyr ysbytai, mae opsiwn i wneud rheoliadau sy'n cwmpasu gofal sylfaenol ar wahân i'r prif drefniadau a fyddai'n berthnasol i ysbytai a gofal arbenigol wedi'i gomisiynu. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i drafod y manylion ymarferol ac i gynnal y trafodaethau angenrheidiol gyda'r proffesiynau contractio a'u hundebau amddiffyn meddygol.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y mesur hwn ac mae i'w weld yn Rhan 2.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Opsiynau

7.1 Mae'r opsiynau canlynol ar gael:

Opsiwn 1: Gwneud dim

Opsiwn 2: Cyflwyno trefniadau amgen drwy gyfrwng canllawiau heb fwy o ddeddfwriaeth

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad

Opsiwn 1 – Gwneud dim

7.2 Mae'r system gyfreithiol bresennol ar gyfer ymdrin ag iawn ariannol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol eisoes wedi ymsefydlu ac mae dealltwriaeth dda ohoni. Serch hynny, nid oes unrhyw fudd ychwanegol i'w gael wrth gwneud dim. Ni fyddai parhau â'r system bresennol yn:

- cynnig dewis heblaw cymryd camau cyfreithiol yn yr achosion hynny a fyddai'n gymwys i gael gwrandawriad o dan y trefniadau gwneud iawn;
- mynd i'r afael â'r oedi sy'n rhan o'r system bresennol nac â'r costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hi;
- arwain at gysonder yn yr ymateb a roddir i gleifion pan fydd pethau'n mynd o chwith;
- rhoi'r pwyslais ar unioni cam cleifion fel mater o drefn ac yn rhoi'r esboniad, yr ymddiheuriad a'r sicrwydd hynny y mae cleifion yn dweud eu bod eu hangen; nac yn
- cyfrannu at ddiwylliant o ddysgu yn y GIG, gan greu sbardun i wella'r gwasanaeth ehangach.

7.3 Mae gwneud dim yn cynnal sefyllfa lle mae nifer o bobl yn cael eu rhwystro rhag sicrhau'r canlyniad y maent yn ei haeddu. Er y gallai newid hirdymor yn y diwylliant wella profiadau cleifion, byddai'r system yn dal i ogwyddo o blaid y rhai mwyaf huawdl, y rhai sydd â'r cymhelliant mwyaf a'r rhai sydd â digon o adnoddau, amser ac egni i fwrw'r maen i'r wal. Yn ymarferol bydd y trefniadau arfaethedig yn ymwneud ag unioni cam achwynwyr fel mater o drefn. Trwy gynnig gwir ddewis heblaw cymryd camau cyfreithiol yn yr achosion hynny sy'n gymwys i gael iawn o dan y trefniadau, gellir mynd i'r afael â'r oedi a'r costau sy'n rhan annatod o'r system bresennol a bydd hynny, gydag amser, yn gostwng y costau cyfreithiol a achosir wrth ddwyn achos a'i amddiffyn.

Opsiwn 2 – Cyflwyno trefniadau amgen drwy gyfrwng canllawiau heb fwy o ddeddfwriaeth

7.4 Byddai modd parhau i wneud gwelliannau i'r ffordd y mae cwynion, hawliadau a digwyddiadau'n cael eu trin heb gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Byddai'r gwelliannau hyn yn gyfyngedig i raddau helaeth i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru ar esgeuluster clinigol ac ymdrin â hawliadau, ac ar wella'r weithdrefn gwynion. Disgrifir rhywfaint o'r gwaith hwn isod.

Gwaith sydd eisoes ar y gweill i ymdrin â hawliadau esgeuluster clinigol yn well:

Prosiect Peilot y Cynllun Datrys Cyflym ar gyfer Hawliadau Esgeuluster Clinigol

7.5 Dyfeisiwyd y Cynllun gan weithgor a grëwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n gynllun o gyd-arbenigwyr, mae iddo amserlen benodol a ffioedd sefydlog ac mae'n ymdrin â hawliadau yn erbyn Ymddiriedolaethau GIG Cymru sy'n werth rhwng £5,000 a £15,000. Lanswyd y cynllun ar 1 Chwefror 2005.

7.6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gobeithio y bydd y cynllun yn cyflawni pedwar amcan polisi sylfaenol:

- Gostwng yr amser a gymerir i ddatrys hawliadau esgeuluster clinigol sy'n gymwys i gael mynediad i'r cynllun;
- Gostwng y gost o setlo'r cyfryw hawliadau;
- Gwella'r gwersi a ddysgir o achosion unigol, a
- Darparu mwy o esboniadau am driniaethau

7.7 Caiff y cynllun ei werthuso erbyn tymor yr hydref 2007 fel rhan o'r prosiect *Gweithio i Wella* a gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid parhau â'r cynllun ai peidio ac efallai ei ymestyn. Er bod nodau'r Cynllun Datrys Cyflym yn adlewyrchu llawer o nodau'r trefniadau gwneud iawn arfaethedig, mae'n dal yn ddull o gymryd camau cyfreithiol, ond yn fyrrach. Felly, i rai cleifion bydd iddo'r un math o feini tramgwydd a ddisgrifir uchod, a allai rwystro pobl rhag cymryd camau cyfreithiol. Mae hefyd yn gyfyngedig o ran medru cynnig dull amgen o setlo hawliadau. Yn amodol ar y gwerthusiad, gallai'r Cynllun Datrys Cyflym barhau i fod yn ddefnyddiol fel dewis amgen i'r bobl hynny sydd am ddilyn y llwybr camau cyfreithiol yn hytrach nag unrhyw drefniadau gwneud iawn a arweinir gan y GIG.

Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau

7.8 Mae Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau yn defnyddio technegau cymodi a chyfyngu i ddatrys problemau yn hytrach na throi at gamau cyfreithiol gwrthdrawiadol. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu o gylch y bwrdd naill ai gyda'r cyfreithiwr a'r hawlydd neu gyda bargyfreithwyr y naill ochr a'r llall, ynghyd â'r hawlydd a chynrychiolydd yr Ymddiriedolaeth GIG.

7.9 Manteision y Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau yw ei fod yn debygol o fod yn llai costus, yn gynt ac yn gyfrinachol. Mae hefyd yn anelu at sicrhau bod y berthynas rhwng y meddyg a'r claf yn cael ei diogelu.

7.10 Anfantais y Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau yw bod yn rhaid i'r hawliad fod yn un y mae modd ei ddatrys, er enghraifft lle mae'r ddwy ochr yn cytuno ar yr atebolrwydd a'r achosiaeth. Cymysg yw'r llwyddiant a gaiff cyfryngu fel dull amgen o ddatrys anghydfodau, am fod achwynwyr yn tueddu i gymryd yn ganiataol bod cyfryngu, pan gaiff ei gynnig, yn golygu bod achos yr Ymddiriedolaeth yn wan. Wrth esbonio bod cyfryngu yn cael ei gynnig fel cyfle i ddeall yr hyn sydd wedi digwydd, caiff ei wrthod weithiau. Gall cyfryngu fod yn gostus, yn enwedig os yw'n aflwyddiannus ac yna mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth dalu i amddiffyn hawliad sydd naill ai wedi'i ddwyn gan yr hawlydd neu sydd wedi'i barhau ganddo.

Gwaith pellach i sicrhau bod y polisi Bod yn Agored yn gwreiddio ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru

7.11 Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) wedi datblygu polisi ar fod yn agored ac yn onest ar ôl digwyddiadau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion. Enw'r polisi yw *Bod yn Agored* ac mae'n cynnwys ymddiheuro ac esbonio i gleifion (a/neu eu gofalwyr) yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau diogelwch. Mae'n sicrhau bod y cyfathrebu'n agored ac yn onest ac yn digwydd cyn gynted ag y bo modd ar ôl digwyddiad. Mae'n cynnwys cyfathrebu rhwng sefydliadau gofal iechyd, timau gofal iechyd a chleifion a/neu eu gofalwyr.

7.12 Yr argymhellion ar gyfer cyflwyno ac integreiddio'r polisi *Bod yn Agored* oedd y dylai Ymddiriedolaethau'r GIG fod wedi datblygu polisi erbyn Mehefin 2006 sydd wedi'i deilwra i ddiwallu'r gofynion lleol. Dylai'r polisiâu hyn gael eu hintegreiddio gyda'r strwythurau presennol ar gyfer rheoli risg a llywodraethu clinigol. Dylid codi ymwybyddiaeth am y polisi ymhlith staff gofal iechyd drwy ddarparu'r wybodaeth a'r cymorth priodol. Mae sefydliadau'r GIG ar wahanol gamau o ddatblygu'r gwaith hwn a gofynnir am fwy o wybodaeth fel rhan o'r prosiect *Gweithio i Wella*.

7.13 Er bod yr holl ddatblygiadau hyn yn rhai cadarnhaol ac yn symud i'r cyfeiriad iawn, nid ydynt, ynddynt eu hunain, yn cyrraedd y nodau uwch sy'n gysylltiedig â'r trefniadau arfaethedig o ran darparu dewis heblaw camau cyfreithiol a sicrhau bod modd cael iawn priodol.

Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad

7.14 Yr opsiwn hwn sy'n bodloni orau fwriadau'r polisi i greu diwylliant lle y mae cyrff y GIG yn delio'n rheolaidd ac yn gyson â chleifion sydd wedi cael niwed, ac yn fwy abl i ddysgu o'u camgymeriadau. Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r systemau a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer cwynion,

esgeuluster clinigol ac ymdrin â digwyddiadau yn awyddus iawn i chwilio arm ddulliau gwell o weithio. Golyga hyn, law yn llaw â'r pwerau newydd sydd ar gael i'r Cynulliad, y gallai fod yn amser da i weithredu i wneud gwir welliannau a chreu trefniadau newydd a fydd yn ymateb yn well i gleifion. Mae manteision penodol y cynigion yn y Mesur drafft yn cynnwys:

- bod modd dysgu'n well o gamgymeriadau ar lefel leol, ymchwiliadau gwell a mwy effeithlon, rhoi mwy o sylw i esboniadau ac ymddiheuriadau;
- bod agwedd flaenweithgar at wneud iawn, lle mae'n rhaid i sefydliadau lleol ystyried yr opsiwn hwn o ddifrif mewn achosion priodol;
- bod y cynnig o iawn a derbyn yr iawn hwnnw yn gyfrwymol mewn contract cyfreithiol, ac felly'n osgoi cychwyn achos mewn llys a'r costau sydd ynghlwm wrth hynny;
- bod cyngor cyfreithiol a chymorth eiriolaeth yn cael eu darparu heb godi tâl ar yr unigolyn sy'n ymfyn am iawn.

7.15 Gall pethau sy'n mynd o chwith amrywio o ddigwyddiad gweddol fach y gellid, o bosibl, ddelio ag ef yn gyflym i gamgymeriadau clinigol neu fethiant systemau sy'n achosi niwed difrifol neu hyd yn oed farwolaeth. Yn y blynyddoedd diwethaf mae mwy o waith wedi canolbwyntio ar yr angen am wella diogelwch, dysgu o gamgymeriadau a bod yn agored gyda phobl mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae'r system adrodd am ddigwyddiadau difrifol yn meithrin hyder sefydliadau'r GIG i adrodd am ddigwyddiadau ac mae'r diwylliant yn newid yn raddol. Serch hynny, erys y ffaith fod pobl sy'n cwyno neu bobl sy'n credu iddynt gael niwed yn teimlo'n aml eu bod wedi cael eu trin yn wael ac wedi cael eu gorfodi'n aml i frwydro am ganlyniad teg, boed hynny'n esboniad, yn ymddiheuriad, yn driniaeth i adfer y sefyllfa, yn sicrwydd y cymerwyd camau i rwystro'r un peth rhag digwydd i rywun arall, neu, lle y bo hynny'n briodol, yn ddigollediad ariannol.

7.16 Nid yw'n glir bob tro a ddylid trin mater fel cwyn, hawliad neu ddigwyddiad o dan y trefniadau adrodd. Yn aml iawn, nid yw achosion o esgeuluster clinigol posibl lle gallai fod yn briodol cynnig digollediad ariannol yn cael eu cydnabod neu gamau gweithredu'n cael eu cymryd oni bai a hyd nes y caiff cyfreithwyr gyfarwyddiadau i ddechrau ymchwilio i'r mater gyda golwg ar ddechrau achosion cyfreithiol. Ar y cyfan, bu amharoddrwydd i fynd i'r afael â materion fel hyn yn gynnar yn y broses i'w datrys mewn modd cadarnhaol ac mewn modd y gellir dysgu ohono. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y gall sefyllfaoedd fel hyn achosi cryn ofid i staff a rhoi enw gwael i'r sefydliad dan sylw. Felly, bu tuedd i ymateb yn amddiffynnol yn hytrach nag yn agored. Er bod y sefyllfa hon yn newid wrth weithredu polisiâu fel *Bod yn Agored*, fel y nodwyd uchod, gyda'r symbyliad y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth bydd cyrff y GIG yng Nghymru yn cael eu grymuso i gymryd agwedd mwy blaenweithgar.

7.17 Bydd gan y trefniant a gynigir bwynt mynediad cyffredin ar gyfer delio â materion sy'n mynd o chwith a byddai'r pwynt mynediad hwnnw'n

cwmpasu cwynion, esgeuluster clinigol a digwyddiadau. O gael pwynt mynediad cyffredin byddai rheolwyr y GIG yn medru penderfynu'n fuan yn y broses, ar y cyd â'r achwynwyr, ar y dull mwyaf effeithiol o ymdrin â'r mater, a faint o ymchwilio y byddai angen ei wneud.

- 7.18 Bydd datblygu sgiliau'r staff i fedru ymgymryd â'r ymchwiliadau priodol yn bwysig iawn, o ran adeiladu ar y sgiliau a'r profiad presennol yn ogystal ag ennill meysydd newydd o arbenigedd. Gellir cyflawni hynny drwy hyfforddi a datblygu'r staff presennol a/neu recriwtio mwy o staff.
- 7.19 Nid yw'r Mesur ond un elfen o'r ddeddfwriaeth a fydd yn ategu'r trefniadau hyn. Mae'r Cynulliad eisoes wedi cael pwerau i wneud rheoliadau (i'w harfer bellach gan Weinidogion Cymru) yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 mewn perthynas â chwynion. Bydd y Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w galluogi i bennu mewn rheoliadau yr hyn y bydd ei angen ar gyfer y trefniadau gweithredu sy'n cwmpasu achosion o esgeuluster clinigol is eu gwerth. Wrth arfer y pwerau hyn i wneud rheoliadau ochr yn ochr â'i gilydd, bydd Gweinidogion Cymru yn medru sicrhau eu bod yn cydblethu i ategu'r trefniadau integredig sydd dan sylw.

8. Costau a manteision

Opsiwn 1: Gwneud Dim

Manteision:

8.1 Does braidd ddim mantais mewn gwneud dim. Bydd y system yn parhau fel y mae ar hyn o bryd i bob pwrpas a bydd tuedd gyffredinol tuag at fod yn fwy agored a blaenweithgar, ond ni fydd fawr ddim symbyliad i ddatblygu mwy, a bydd gadael i bethau ddatblygu mewn modd ad hoc yn arwain at lai o gysondeb.

Costau:

8.2 Yn aml, clywir pobl yn dweud bod y nifer sy'n cymryd camau cyfreithiol a'r costau sydd ynghlwm wrth hynny yn uchel ac yn cynyddu a bod pobl yn fwy na pharod i ddwyn hawliadau yn erbyn y GIG. Serch hynny, nid yw nifer yr hawliadau cyfredol sydd ar glawr yng Nghymru yn cefnogi'r safbwynt bod yma "ddiwylliant o fynd i gyfraith". Mewn gwirionedd ni chafwyd braidd ddim newid yn nifer yr hawliadau yng Nghymru dros gyfnod o 18 mis.

8.3 Derbynnir, serch hynny, bod hawliadau is eu gwerth yn aml yn costio mwy i'r GIG nag y dylent, yn ariannol yn ogystal ag o ran yr amser y mae'r staff iechyd yn ei dreulio allan o'r gwasanaeth. Gall y costau cyfreithiol fod yn uwch na gwerth y setliad i'r claf, ac mae hynny wedi digwydd o dro i dro. Y rheswm am hyn yn aml yw'r broses gyfreithiol sydd i'w dilyn, a all fod yn hirfaith ac weithiau'n feichus.

8.4 Roedd y pryderon am y gost a'r broses gyfreithiol, sy'n aml yn hirfaith, yn ddau o'r rhesymau a nodwyd dros ddatblygu'r Cynllun Datrys Cyflym, sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd, fel y trafodwyd eisoes. Serch hynny nid oes cwnpas o fewn y cynllun i ystyried dulliau amgen o gynig iawn i gleifion. Mae'r Cynllun Datrys Cyflym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfreithwyr ar ochr y GIG ac ar ochr y claf yn cymryd rhan ac nid oes posibilrwydd felly y gellid setlo'r mater yn fuan drwy ennyn trafodaeth rhwng y claf a'r sefydliad GIG.

8.5 Yn 2005/06 costiodd y setliadau am esgeuluster clinigol dros £27 miliwn (ac eithrio costau cyfreithiol) i'r GIG, ac mae hynny'n sylweddol ynddo'i hun, ond mae cost y broses hirfaith a beichus i'r claf a'r staff yr un mor bwysig. Byddai derbyn y status quo yn golygu derbyn y gallai patrwm yr hawliadau cyfredol barhau, yn anwybyddu'r potensial i arbed costau ac yn anwybyddu hefyd y posibilrwydd y gellid bodloni anghenion cleifion yn well mewn rhai achosion drwy drefniadau amgen.

Opsiwn 2 – Cyflwyno canllawiau/adeiladu ar yr hyn sy'n digwydd eisoes

Manteision:

8.6 Gallai fod rhywfaint o werth yn hyn, ond ni fyddai'n rhoi'r ffocws y mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio amdano o ran gwneud gwelliannau i'r maes hwn drwyddo draw.

Costau:

8.7 Mae llawer o'r sylwadau a wnaed ynghylch y gost o wneud dim yr un mor berthnasol yma o ran peidio â gwireddu'r manteision posibl. Gallai'r opsiwn hwn ddylanwadu er gwell neu er gwaeth ar gostau, gan ddibynnu pa mor llym y cedwid at y canllawiau diwygiedig. Mae'n bosibl na fyddai'n ysgogi ymddiriedolaethau i ddatblygu eu dull o reoli hawliadau bach nac yn eu grymuso'n ddigonol i geisio setlo'r mater heb droi at gamau cyfreithiol.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur

Manteision:

8.8 Bydd y Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno trefniadau, a fydd yn arwain at ymateb mwy cyson i gleifion pan fydd pethau'n mynd o chwith. Bydd y pwyslais ar unioni cam cleifion fel mater o drefn, gan roi'r esboniadau, yr ymddiheuriadau a'r sicrwydd y mae cleifion yn awyddus i'w cael¹, a chynnig digollediad ariannol lle y bo hynny'n briodol. Bydd y Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno dull llai gwrthdrawiadol o unioni cam a chreu diwylliant lle y gall cyrff y GIG ddysgu'n well o'u camgymeriadau.

8.9 Mae'r gwaith a wnaed eisoes yn awgrymu bod modd arbed tua £750,000 y flwyddyn (gweler isod). Fodd bynnag, mae'n rhaid trin y ffigur hwn yn ofalus, gan mai asesiad cynnar iawn ydyw.

Costau:

8.10 Mae ansicrwydd ynghylch y costau ariannol ar hyn o bryd ac maent ymhlith y manylion sydd i'w clustnodi gan y prosiect ffurfiol a sefydlwyd i ddatblygu'r trefniadau hyn yng Nghymru.

8.11 Serch hynny, ar sail y gwaith modelu ariannol a wnaed yn Lloegr, disgwylir y bydd y Cynllun Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (sy'n debygol o fod â therfynau ariannol tebyg i unrhyw drefniadau a wneir yng Nghymru) yn achosi cynnydd yn y gwariant i ddechrau, oherwydd bod

¹ Mae cleifion am gael: ymddiheuriad (34%); esboniad (23%); cymorth gyda'r canlyniadau (17%); digollediad ariannol (11%); camau disgyblu (6%) **Ffynhonnell: MORI/Yr Adran Iechyd**

agor y drws at ddulliau o unioni cam pan fydd pethau'n mynd o chwith yn debygol o ddenu hawliadau i'r system na fyddai, o bosibl, yn dod i'r amlwg fel arall. Serch hynny disgwylir y bydd arbedion yn y tymor hir, wrth i'r costau cyfreithiol ostwng ac wrth i'r sefydliadau ddysgu'n well o'u camgymeriadau, a fydd yn achosi llai o hawliadau am esgeuluster. Mae llawer yn dibynnu ar nifer yr hawliadau newydd a ddaw i law, ac mae ffigurau Lloegr yn rhagweld amrywiaeth fawr, o arbedion posibl o £7 miliwn lle cafwyd dim ond cynnydd bach yn yr hawliadau am iawn, i gostau ychwanegol o £48 miliwn lle cafwyd cynnydd mawr yn yr hawliadau.

- 8.12 Disgwylir effaith debyg yng Nghymru oherwydd y newid pwyslais ar ymchwiliadau buan a gwell. Yn sgil gwaith dechreuol a wnaed gan gwmni o actiwariâu cost ar gyfer Cronfa Risg Cymru ar asesu'r gost bosibl pe byddai nifer yr hawliadau'n cynyddu o dan y trefniadau newydd, mae'r effaith ariannol yn amrywio o arbedion posibl o £750,000 y flwyddyn i gostau ychwanegol o £3 miliwn. Serch hynny, mae'n rhaid trin y ffigurau hyn yn ofalus, am eu bod yn asesiad cynnar iawn.
- 8.13 Bydd costau sylweddol ynghlwm wrth hyfforddi a datblygu staff yr holl sefydliadau i ymgymryd ag ymchwiliadau priodol ac i ddelio â materion yn briodol. Nid yw'r costau hyn wedi eu pwysu a'u mesur hyd yma. Efallai y bydd costau bach hefyd ynghlwm wrth wneud ymchwiliadau cychwynnol i hawliadau posibl nad ydynt wedyn yn symud ymlaen o dan y trefniadau am wahanol resymau, ond byddai'n anodd rhagfynegi maint y costau hynny ar hyn o bryd.
- 8.14 Bwriedir y bydd cyngor cyfreithiol a chymorth eiriolaeth ar gael yn ddi-dâl i bobl y mae eu hachos yn cael ei ystyried o dan y trefniadau gwneud iawn. Unwaith eto, y prosiect sydd i bennu ym mha fodd y gellir darparu'r gwasanaethau hyn a'r costau tebygol o wneud hynny.
- 8.15 Rhaid talu unrhyw gostau ychwanegol o dan y trefniadau newydd hyn o'r gyllideb a neilltuir i'r portffolio lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol.
- 8.16 O ran yr effaith ar gwmnïau cyfreithwyr sy'n gwneud gwaith esgeuluster meddygol, nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn debygol o arwain at gostau ychwanegol. Serch hynny, am fod hawliadau is eu gwerth yn rhan sylweddol o lwyth gwaith cyfreithwyr sy'n delio ag esgeuluster clinigol, mae posibilrwydd yr ymdrinnir â rhai o leiaf o'r hawliadau hyn o dan y trefniadau newydd ac y gallent gael eu dargyfeirio oddi wrth y cwmnïau. Felly, gallwn gasglu y gallai cwmnïau cyfreithwyr golli peth incwm, ond byddai'n rhaid gosod hynny ochr yn ochr â'r enillion cyffredinol a ddisgwylir i goffrau'r wlad pan fydd materion iawn yn cael eu setlo'n gynnar a'r gallu i ddargyfeirio unrhyw arian a arbedwyd i setlo mwy o achosion neu hyn yn oed i'r gwasanaethau rheng flaen.

- 8.17 Mae'n werth nodi ei bod wedi dod yn glir yn ystod yr ymgynghoriad a wnaed yn Lloegr ar gyfer y Cynllun Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG yno, bod y cynigion wedi cael cefnogaeth gyffredinol Cymdeithas y Cyfreithwyr yn ogystal â Phwyllgor Diwygio'r Gyfraith yng Nghyngor y Bar - ni chodwyd unrhyw bryderon am yr effaith ar fusnesau cyfreithwyr.
- 8.18 Ni ddisgwylir y bydd y trefniadau sydd i'w cyflwyno o dan y pwerau yn y Mesur yn effeithio ar lywodraeth leol.
- 8.19 Ni ddisgwylir y bydd y trefniadau yn effeithio ar y sector gwirfoddol yng Nghymru.

9. Asesu'r Gystadleuaeth

- 9.1 Ychydig iawn o effaith a gaiff unrhyw drefniadau newydd ar fusnesau bach ac ni fydd effaith ar lywodraeth leol nac ar y sector gwirfoddol.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd y manylion monitro ac adolygu yn cael eu pennu yn y rheoliadau sydd i'w gwneud o ganlyniad i'r Mesur.

Atodiad 1

Nodiadau Esboniadol

Cyflwyniad

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur drafft ynghylch Gwneud iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) fel y'i cyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Gorffennaf 2007. Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u paratoi i gynorthwyo darlennydd y Mesur drafft ac i helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur drafft ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Mae angen i'r nodiadau gael eu darllen ar y cyd â'r Mesur drafft. Nid ydynt, ac nid ydynt wedi'u bwriadu i fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran neu ran o adran, ni fydd unrhyw un yn cael ei roi.

Crynodeb a chefnidir

3. Yn y ddogfen *Creu'r Cysylltiadau*, a lanswyd yn 2004, disgrifiwyd y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a nodwyd y byddai iawn teg yn un o'r safonau craidd allweddol ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid. Cafodd *Creu'r Cysylltiadau* gefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol ac fe'i hategwyd gan gonsensws i raddau helaeth ar draws y sector cyhoeddus. Felly, mae lle amlwg yn yr agenda strategol honno i gynigion i ddatblygu'r modd y mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ymateb pan fydd pethau'n mynd o chwith.
4. Mae'r *Cynllun Gwella Ansawdd Gofal Iechyd* (QuIP) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2006 hefyd yn nodi bod datblygu iawn effeithiol yn un o'r camau y mae ei angen i ddarparu gwasanaeth iechyd o safon uchel, sy'n dysgu ac yn gwella'n barhaus. Yn y cyd-destun hwn, mae "iawn" yn disgrifio'r driniaeth deg a roddir i unigolyn sy'n dioddef oherwydd y camau a gymerwyd gan unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau iechyd, boed hynny o fewn y GIG neu o dan drefniadau comisiynu'r GIG. Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi ar waith brosiect ehangach o'r enw *Gweithio i Wella*, sy'n anelu at ddatblygu dull integredig o drin pethau sy'n mynd o chwith yn y GIG yng Nghymru a dysgu oddi wrthynt. Mae'r Mesur hwn yn un rhan o'r gwaith ehangach hwnnw.
5. Mae'r Mesur yn gosod pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu trefniadau a fyddai'n galluogi'r GIG yng Nghymru i setlo, heb unrhyw angen i gyhwyn achos llys, hawliadau penodol sy'n codi mewn

cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir i gleifion fel rhan o'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru, lle bynnag y mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu. Mae'n nodi pa gyrff y byddai rhaid iddynt weithredu'r trefniadau hyn.

Cymhwysiad Tiriogaethol

6. Mae'r Mesur yn gymwys o ran Cymru. Bydd yn cynnwys y gallu i wneud rheoliadau, a fydd yn effeithiol pan fo gofal iechyd wedi'i gomisiynu mewn perthynas â chleifion o Gymru oddi wrth ddarparu'r sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

Sylwadau ar Adrannau

Adran 1 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer lawn am Gamweddau'r GIG

7. Mae *Is-adran (1)* yn nodi'r egwyddor gyffredinol y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer trefniadau lawn am Gamweddau'r GIG a fyddai'n caniatáu i faterion gael eu setlo heb orfod mynd i'r llys pan fo atebolrwydd cymwys mewn camwedd yn codi. Mae *is-adran (2)* yn darparu y bydd y trefniadau yn gymwys i achosion pan fo atebolrwydd mewn camwedd yn deillio o wasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, neu'n rhywle arall, ar yr amod ei fod yn cael ei gomisiynu fel rhan o'r gwasanaeth iechyd ar gyfer person sy'n preswyllo yng Nghymru. Fel y nodir yn *is-adran (3)*, bydd y trefniadau yn gymwys i atebolrwydd mewn camwedd sy'n deillio ar ran:
 - Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru;
 - Byrddau Iechyd Lleol;
 - Awdurdodau Iechyd Arbennig;
 - Gweinidogion Cymru;
 - Unrhyw berson neu gorff sy'n darparu neu'n trefnu ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru o ganlyniad i drefniant gydag unrhyw un o'r cyrff uchod. Mae hyn yn golygu y gall ymarferwyr cyffredinol; deintyddion, fferyllwyr ac offthalmolegwyr sy'n darparu gofal GIG neu ysbytai annibynnol a gomisiynir i ddarparu gofal fel rhan o'r GIG beri atebolrwydd.
8. Mae *is-adran (4)* yn darparu bod rhaid i atebolrwyddau mewn camwedd fod yn atebolrwyddau o ran anaf personol neu golled sy'n deillio o dordyletswydd gofal, mewn cysylltiad â diagnosis salwch, neu o ran y gofal neu'r driniaeth a ddarparwyd. Felly bydd iawn yn gymwys fel rheol mewn perthynas â chleifion sy'n cael gofal GIG. Mae *is-adran (4)* yn darparu'n benodol y bydd yr atebolrwydd hwn yn ddyledus o ganlyniad i unrhyw weithred neu anweithred gan broffesiynolyn gofal iechyd, ond mae gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu unrhyw gorff arall neu berson arall a allai beri atebolrwydd hefyd.

9. Ni fyddai trefniadau yn cael eu cyfyngu i hawliadau gan gleifion. Cyhyd â bod hawliadau yn dod fel arall o dan y diffiniad yn *is-adran (4)*, gall y diffiniad hwnnw gwmpasu hawliadau y gellid eu gwneud yn sgil marwolaeth claf yn rhinwedd Deddf Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) 1934 (sy'n darparu, pan fo gan berson sail i achos a bod y person hwnnw'n marw, caniateir bwrw ymlaen â'r achos er budd ei ystâd). Gall gwmpasu hefyd hawliadau y deuir â hwy gerbron llys gan ddibynyddion claf ymadawedig o dan Ddeddf Damweiniau Marwol 1976. Mae'r Ddeddf honno'n darparu, pan fo marwolaeth person wedi'i achosi gan unrhyw gamweithred, esgeulustod neu ddiffyg y mae ei natur o fath a fyddai wedi rhoi i'r person a anafwyd, pe na bai ei farwolaeth wedi digwydd, hawlogaeth i barhau ag achos ac adennill iawndal mewn perthynas â'r anaf, fod atebolrwydd i ddwyn achos am iawndal yn parhau er budd dibynyddion y person a fu farw, sef dibynyddion megis gwraig, plentyn neu bartner sifil
10. Mae *is-adran (6)* yn darparu na fyddai pobl sy'n gweithio o dan contract cyflogaeth yn cael eu hystyried yn atebol yn bersonol am esgeuluster, ond mai eu cyflogwr yn hytrach a fyddai'n atebol am eu gweithredoedd.

Adran 2: iawn o dan y rheoliadau

11. Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanylach y math o ddarpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud mewn perthynas â threfniadau iawn. Mae *is-adran (1)* yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud pa drefniadau bynnag mewn rheoliadau y maent yn credu eu bod yn briodol ynglŷn ag iawn, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau *isadrannau (2), (3) a (6)(b)*. Mae'r isadrannau hynny'n datgan bod rhaid i'r rheoliadau ddarparu:
- bod iawn yn cynnwys cynnig digollediad ariannol; rhoi esboniadau, ymddiheuriadau ysgrifenedig, ac adroddiad ar y camau a gymerwyd a'r hyn a ddysgwyd a bod modd i'r rhain gael eu darparu mewn unrhyw gyfuniad (*is-adran (2)*);
 - bod rhaid i'r trefniadau beidio â bod yn gymwys i achos sydd eisoes neu sydd wedi bod yn destun rheithdrefn (*is-adran(3)*); a
 - bod rhaid i unrhyw reoliadau sy'n darparu ar gyfer digollediad ariannol bennu terfyn uchaf ar y swm sydd i'w gynnig mewn perthynas â phoen a dioddefaint (iawndal cyffredinol), os na phennir unrhyw derfyn uchaf hollgynhwysfawr (*is-adran (6)(b)*). Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai unrhyw drefniadau yn ceisio pennu terfyn cyflawn a fyddai'n cwmpasu iawndal cyffredinol ac iawndal arbennig i sicrhau y byddai hawliadau mwy cymhleth a rhai uchel eu gwerth yn cael eu trin gan arbenigwyr hawliadau ac nid drwy'r trefniadau lleol.
12. Mae *is-adran (4)* yn darparu y caiff y rheoliadau ganiatáu i ddigollediad gael ei gynnig ar ffurf triniaeth adfer a/neu ddigollediad ariannol, a nodir mewn contract gyda'r claf. Byddai hyn yn rhoi gwarantau go iawn i'r claf y byddai'n cael y gofal adfer y mae arno ei angen, o fewn amser penodedig. Os yw digollediad ariannol i'w gynnig, yna mae *is-adran (5)*

yn darparu y caiff y rheoliadau bennu'r materion y caniateir i ddigollediad ariannol gael ei gynnig mewn perthynas â hwy a sut y mae'r broses o asesu'r digollediad i'w chyflawni. Mae *is-adran 6(a)* yn darparu y caniateir i derfyn uchaf gael ei osod ar y swm o ddigollediad ariannol.

Adran 3: Ymofyn am iawn

13. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud pa drefniadau bynnag y maent yn barnu eu bod yn briodol ynglŷn ag ymofyn am drefniadau iawn. Mae *is-adran (2)* yn darparu y caiff y rheoliadau bennu pwy sy'n cael ymofyn am y trefniadau. Efallai mai'r claf fyddai hwnnw neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, neu gallai'r corff o dan sylw roi cychwyn ar y trefniadau ar ran y claf a chyda'i gydsyniad. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer terfynau amser mewn perthynas ag ymofyn am iawn.

Adran 4: Dyletswydd i ystyried y posibilrwydd o ymofyn am drefniadau iawn

14. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau y dylai unrhyw gorff neu berson sy'n adolygu achos penodol sy'n ymwneud â chlaf ystyried o ddifrif a all iawn fod ar gael mewn perthynas â'r achos hwnnw.

Adran 5: Dull darparu iawn

15. Mae'r adran hon yn disgrifio'n fanylach y math o ddarpariaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud mewn rheoliadau ynglŷn â sut y bydd y trefniadau'n gweithio. Mae *is-adran (1)* yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud pa drefniadau bynnag mewn rheoliadau y maent yn barnu eu bod yn addas ynghylch sut y mae iawn i'w ddarparu, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau *isadrannau (3), (5) a (6)*. Yn ôl yr isadrannau hynny, rhaid i'r rheoliadau ddarparu:

- bod canfyddiadau unrhyw ymchwiliad yn cael eu cofnodi mewn adroddiad a bod copi o'r adroddiad hwnnw ar gael i'r person sy'n ceisio iawn (*is-adran (3)*);
- bod unrhyw setliad o dan y trefniadau yn cynnwys hepgoriad o'r hawl i godi achos sifil mewn perthynas â'r un materion. (*is-adran (5)*); ac
- os cychwynnir rheithdrefn mewn perthynas â'r un pynciau, na allai'r trefniadau iawn fod yn gymwys mwyach wedyn. Mewn achosion o'r fath, byddai rhaid gollwng unrhyw ymchwiliad a ddechreuwyd eisoes *is-adran (6)*.

16. Mae *is-adran (2)* yn dweud y caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer manylion megis terfynau amser mewn perthynas â gwahanol rannau o'r broses; ymchwiliadau a setliadau. Mae *is-adran (4)* yn darparu y caiff y rheoliadau bennu nad oes angen darparu copi o adroddiad ymchwiliad o dan amgylchiadau penodol.

Adran 6: Atal dros dro gyfnod y cyfyngiad

17. Mae Deddf Cyfyngiadau Achosion 1980 yn darparu na chaiff person ddwyn achos llys am anaf personol fwy na thair blynedd o'r dyddiad y cododd y niwed neu y daeth y person i wybod am y niwed hwnnw. Mae'r adran hon yn sicrhau bod rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer atal dros dro unrhyw gyfnod cyfyngu sy'n gymwys i achosion sy'n cael eu hystyried o dan y trefniadau. Wrth wneud hynny, mae'n golygu na fydd achos cleifion yn cael ei niweidio ac na fydd cleifion yn cael eu hatal rhag dwyn materion gerbron llys (os byddant yn dewis peidio â derbyn unrhyw gynnig) drwy orfod disgwyl am ganlyniad ymchwiliad o dan y trefniadau iawn.

Adran 7: Cyngor cyfreithiol, etc.

18. Mae'r adran hon yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaethau y maent yn barnu eu bod yn addas mewn rheoliadau ar gyfer rhoi cyngor cyfreithiol neu ddarparu gwasanaethau eraill, gan gynnwys rhoi barn feddygol arbenigol i bobl sy'n defnyddio'r trefniadau iawn (*is-adran 1*). Rhaid i'r rheoliadau sicrhau fan leiaf fod pobl yn cael ymofyn am gyngor cyfreithiol ynglŷn ag unrhyw gynnig, unrhyw benderfyniad i wrthod gwneud cynnig neu unrhyw gytundeb i setlo (*is-adran 2*). Mae *is-adran (3)* yn nodi y caiff y rheoliadau bennu y dylai pwy bynnag sy'n rhoi cyngor cyfreithiol gael ei gynnwys ar restr. Mae *is-adran (4)* yn darparu, os yw cyngor arbenigydd meddygol i'w gomisiynu, y byddai hynny wedyn yn cael ei wneud i bob pwrpas ar y cyd gan y corff GIG a'r unigolyn sy'n ceisio iawn.

Adran 8: Cymorth i unigolion sy'n ceisio iawn

19. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu cymorth rhesymol i bobl sy'n ceisio neu'n bwriadu ceisio iawn o dan y trefniadau. Mae *is-adran (4)* yn darparu y dylai'r cymorth fod yn annibynnol ar y person neu'r corff sy'n destun y gŵyn. Mae'r cymorth hwn yn wahanol i'r cyngor cyfreithiol y darperir ar ei gyfer o dan Adran 7 ac yn debycach i gymorth neu gyngor cyffredinol i bobl sy'n teimlo efallai yr hoffent drafod eu sefyllfa yn drylwyr cyn cymryd camau pellach neu gael rhywun i eiriol drostynt neu eu cynrychioli mewn cyfarfodydd, etc.

Adran 9: Swyddogaethau o ran trefniadau iawn

20. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau'r swyddogaethau a fydd gan unrhyw berson neu gorff o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru o ran gweithredu'r trefniadau iawn. Yn benodol, mae *is-adran (2)* yn nodi y caiff y rhain gynnwys swyddogaethau ynghylch ymofyn am iawn, gwneud taliadau, monitro a chasglu data, etc.

21. Mae *is-adran* (3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw cofnodion a rhoi i unrhyw gorff neu berson gyfrifoldeb dros oruchwylio bod y trefniadau'n cael eu cyflawni'n briodol a sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff neu berson a bennir gyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr achosion y mae'n ymdrin â hwy a'r gwersi a ddysgwyd (*is-adran* (4)) ac i roi sylw i'r cyngor a'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru (*is-adran* (6)). Mae'r adran yn caniatáu hefyd ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer swyddogaethau sydd i'w harfer ar y cyd (*is-adran* (5)).

Adran 10: Cwynion

22. Mae'r adran hon yn diwygio adran 113(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 i gynnwys cwynion ynglŷn â'r trefniadau iawn a ddarperir. Mae hyn yn golygu y bydd gan bobl hawl i gwyno am y ffordd y mae'r trefniant iawn yn cael ei weinyddu (h.y. a oedd penderfyniad wedi'i wneud yn briodol). Nid yw hyn yr un peth ag anghytuno â phenderfyniad sydd wedi'i wneud yn briodol ac nid oes unrhyw hawl i apelio mewn sefyllfaoedd o'r fath. Os yw'r hawlydd yn anghytuno â phenderfyniad sydd wedi'i wneud yn briodol, yna mae'n cadw'r hawl i gymryd camau cyfreithiol.

Adran 11: Gorchmynion a rheoliadau

23. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth am bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Mesur. Yn benodol, mae *is-adran* (6) yn darparu y bydd y set gyntaf o reoliadau sydd i'w gwneud o dan y Mesur yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a bydd yn destun dadl mewn un o gyfarfodydd llawn y Cynulliad.

Adran 12: Pŵer i wneud darpariaeth atodol a chanlyniadol bellach, etc.

24. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig eraill i roi ei effaith i'r Mesur. Yn benodol, mae *is-adran* (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddiddymu unrhyw Ddeddf Seneddol ac offerynnau statudol o ganlyniad i newidiadau y mae eu hangen oherwydd y rheoliadau. Mae cwrpas y pwerau hyn wedi'i gyfyngu gan rychwant y pwerau i wneud Mesurau i ddiwygiadau sy'n gysylltiedig â gwneud iawn am gamweddau'r GIG.

Adran 13: Dehongli

25. Mae adran 13 yn darparu diffiniadau ar gyfer ymadroddion penodol a ddefnyddir yn y Mesur.

Adran 14: Teitl byr a chychwyn

26. Mae'r adran hon yn nodi o dan ba enw yr adwaenir y Mesur. Mae'n gwneud darpariaeth hefyd i Weinidogion gychwyn adrannau ar adegau gwahanol i'w gilydd.